



Sut i ysgrifennu enwebiad Gwobr Ysbrydoli! Tiwtoriaid Ilwyddiannus

Mae Gwobrau Ysbrydoli! yn dathlu effaith drawsnewidiol addysg oedolion ac argraff hynny ar unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r gweithle. Mae Gwobrau Tiwtoriaid yn dathlu'r rôl bwysig tu hwnt y gall tiwtor/mentor ei chwarae mewn cefnogi oedolion ar eu taith a'u hangerdd ac ymroddiad i gefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial a symud ymlaen â'u bywydau.

Yr allwedd i ysgrifennu enwebiad da yw rhoi gwybodaeth benodol i'r Panel Dethol ar sut y cafodd y tiwtor effaith gadarnhaol ar fywydau eu dysgwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau a sut y gwnaethant gyflawni hyn.

- Defnyddio brawddegau byr sy'n gryno ac yn rhoi manylion penodol. Cadwch ef yn gryno ond dweud stori sy'n wirioneddol yn rhoi darlun o'r sawl a enwebwch.
- Cefnogi'r enwebiad gyda'ch sylwadau eich hun, yn ogystal â gwybodaeth ansoddol a meintiol.
- Rhoi trosolwg cyflawn o lwyddiannau'r tiwtor a chyfateb hyn gyda'r meini prawf. Dywedwch wrthym amdanynt, eu hangerdd am diwtora/mentora a'r effaith a gaiff hyn.
- Cynnwys datganiadau a chymeradwyaeth gan ddysgwyr/cydweithwyr/partneriaid.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn enwebu'r tiwtor am y wobr briodol.

Yr hyn yr edrychwn amdano mewn tiwtor - disgwyliwn i bob enwebiad ddangos rhai o'r meini prawf a nodir islaw:

- Angerdd am addysgu a chefnogi oedolion
- Datblygu'r cwricwlwm, gan ddangos arloesedd a chreu adnoddau newydd
- Ysbrydoli unigolion/cymunedau/oedolion i ddychwelyd i ddysgu a'u hannog i fynd â'u dysgu ymhellach
- Cyfrannu at ehangu mynediad ac adeiladu llwybrau i gyfleoedd dysgu, datblygu partneriaethau neu ffyrdd newydd o weithio
- Dangos gwelliannau ym mywydau'r rhai maent wedi eu haddysgu
- Llwyddiannau academaidd, proffesiynol a phersonol

Cyngor da ar ysgrifennu eich enwebiad:-

Teipio eich enwebiad mewn dogfen Word yn gyntaf:

Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i chi wirio a chywiro eich enwebiad cyn copïo a gludo i'r ffurflen. Bydd hyn yn arbed amser ac yn eich galluogi i gyfleu eich neges yn gliriach.

Bod yn fanwl:

Rhowch gymaint o fanylion ag y medrwch i roi darlun o'r sawl a enwebwch a chanolbwyntio ar ateb y cyfan neu rai o'r meini prawf. Mae cynnwys datganiadau gan ddysgwyr/cydweithwyr/partneriaid yn gymorth mewn adeiladu darlun a, lle'n briodol, enghreifftiau o arloesi, datblygu'r cwricwlwm a chreu ffyrdd newydd o addysgu/dysgu a gweithio.

Dangos eu holl llwyddiannau:

Hyd yn oed os yw ein sefydliad yn adnabod y person a enwebwch yn dda, dylech ddal i ddangos eu llwyddiannau mor fanwl ag sydd modd. Ceisiwch roi sylw i gymeriad y sawl a enwebwch a'r hyn a wnaethant pan fyddwch yn llenwi eich cais. Ni ddylech byth dybio y bydd pawb yn gwybod am y sawl a enwebwch.

Rhoi enghreifftiau da:

Esboniwch bob amser sut y mae'r sawl a enwebwch wedi sicrhau llwyddiant mewn tiwtora. Peidiwch dweud pethau fel "Mae'r enwebai wedi gweithio'n galed"; esboniwch yr hyn a wnaeth yr enwebai, gan roi tystiolaeth.

Esbonio'n gywir:

Pwy ydynt, beth yn union y maent wedi'i wneud a'i ddysgu, beth oedd canlyniadau eu tiwtora a pham eich bod yn eu henwebu am Wobr Ysbrydoli! Tiwtoriaid.

Gwybodaeth gefndir:

Gellir cyflwyno dogfennau cefnogi fel rhan o'ch enwebiad. Gallwch anfon dolenni gwefan, lluniau, erthyglau newyddion, dolenni cyfryngau cymdeithasol a llythyrau cefnogaeth. Peidiwch ag anfon eitemau gwreiddiol gan na allwn eu dychwelyd i gyd.

Dilysu'r holl wybodaeth yn yr enwebiad:

Dylid gwirio enwebiadau yn ofalus i ddilysu fod yr holl wybodaeth a gyflwynir yn gywir.

Acronymau:

Sicrhewch y caiff yr holl acronymau eu manylu a'u diffinio'n gywir, heblaw am acronymau cyffredin

Sut i strwythuro eich enwebiad:-

Datganiad Agoriadol:

Cychwynnwch gyda datganiad clir, uniongyrchol a phenodol o pam fod y sawl a enwebwch yn haeddu ennill Gwobr Ysbrydoli! Tiwtoriaid. Rhowch ddigon o wybodaeth i'r panel ddod yn gyfarwydd gyda phethau penodol a gyflawnwyd gan y sawl a enwebwch. Rhestrwch yr wybodaeth bwysicaf yn yr ychydig frawddegau cyntaf ac yna manylwch fel sydd angen.

Cyfiawnhad:

Hyd yn oed er bod y cyfiawnhad yn gryno, ni ddylai fod yn amwys. Osgowch ddefnyddio datganiadau cyffredinol bras a gwneud i bob brawddeg gyfrif. Mae'r panel dethol yn dibynnu ar eich geiriau i roi darlun ffeithiol a chadarnhaol o lwyddiannau dysgu'r sawl a enwebwch. Bydd esbonio ymddygiad manwl a rhoi enghreifftiau penodol yn ei gwneud yn amlwg pan fo rhywun yn haeddu cael cydnabyddiaeth.

Datganiadau Cefnogi:

Cefnogwch y datganiad agoriadol gydag enghreifftiau penodol sy'n trin meini prawf y wobr ac yn ymhelaethu pam fod llwyddiannau'r sawl a enwebir yn haeddu'r wobr. Cynhwyswch nodweddion sy'n gwneud y person yma'n eithriadol ac sy'n amlwg yn berthnasol i feini prawf y wobr. Ystyriwch gynnwys '*Beth wnaeth y tiwtor?*', '*Sut y gwnaethant hynny?*' a '*Beth oedd y canlyniadau a/neu effaith?*' yn eich datganiadau cefnogi.

Datganiad Cloi:

Disgrifiwch beth yw barn pobl eraill am y sawl a enwebir (e.e. cyd-ddysgwyr, tiwtoriaid neu gyflogeion a chyflogwyr). Gallai sôn am wobrau neu lwyddiannau eraill gadarnhau hyn.